



office of the
independent
adjudicator

Ffurflen Gwynion SDA

Rhagarweiniad

Ein rôl fel Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol ar gyfer Addysg Uwch (SDA) yw adolygu'n annibynnol gwynion gan fyfyrwyr am eu darparwydd addysg uwch sydd heb eu datrys. Cynllun adolygu annibynnol ydym ni, nid cam apelio pellach yn perthyn i'ch darparwydd.

Yn gyntaf byddwn yn penderfynu a yw'r gŵyn yn rhywbeth y gallwn edrych arni. Os ydyw, byddwn fel arfer yn ystyried a yw'r darparwydd wedi gweithredu ei reoliadau'n gywir ac wedi dilyn ei weithdrefnau, ac a yw'r canlyniad yn rhesymol.

Edrychwch ar y tudalennau [Myfyrrwyr](#) ar ein gwefan cyn i chi llenwi'r ffurflen hon, i weld a yw'n debygol y gallwn ni edrych ar eich cwyn a chynnig y math o ganlyniad y byddech chi'n ei ddymuno.

Er mwyn gwneud pethau'n haws, defnyddiwn y term "darparwydd" yn ein Ffurflen Gwynion i gynnwys yr holl ddarparwyr sy'n aelodau o'n Cynllun. Gellir dod o hyd i restr o'r holl [ddarparwyr sy'n aelodau](#) ar ein gwefan.

Cwblhau'r ffurflen

Mae [MyOIA](#) yn darparu ffordd hawdd o wneud cwyn, olrhain cynnydd cwynion a newid eich manylion cysylltu. Cyflwynwch eich Ffurflen Gwynion drwy MyOIA os gallwch chi.

Os ydych chi'n cwblhau'r ffurflen fel PDF, lawrlwythwch y ffurflen hon, ei llenwi a'i hanfon fel atodiad at enquiries@oiahe.org.uk.

Os na allwch anfon eich ffurflen atom yn electronig, anfonwch hi drwy'r post gan ddefnyddio gwasanaeth "arwyddwyd amdano" i sicrhau ei bod yn cael ei danfon yn ddiogel, at OIA, Second Floor, Abbey Wharf, 57-75 Kings Road, Reading, RG1 3AB.

- ▶ **Os ydych chi am i ni adolygu eich cwyn, mae angen i chi gwblhau a chyflwyno'r Ffurflen Gwynion hon o fewn 12 mis i'r dyddiad ar y Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau a gyhoeddwyd gan eich darparwydd.** Os nad yw'r Ffurflen Gwynion wedi'i chwblhau a'i llofnodi yn ein cyrraedd erbyn y terfyn amser o 12 mis, bydd yn rhy hwyr ar gyfer eich cwyn, a ni fyddwn yn ei derbyn. Os ydych chi'n poeni efallai na fyddwch yn gallu cyflwyno'r ffurflen o fewn y terfyn amser o 12 mis, cysylltwch â ni cyn y dyddiad cau a byddwn yn ceisio helpu.
- ▶ Cwblhewch bob adran berthnasol o'r ffurflen yn glir.
- ▶ Ceisiwch esbonio eich cwyn mor gryno â phosibl er mwyn ein helpu i ddeall yr hyn yr hoffech i ni roi ystyriaeth iddo.
- ▶ **Llofnodwch adran datganiad y ffurflen.** (Os ydych chi'n llenwi'r ffurflen yn electronig, teipiwch eich enw yn y blwch llofnodi.) Ni allwn dderbyn eich cwyn oni bai bod eich Ffurflen Gwynion wedi'i llofnodi.

Os na fyddwch yn cael cadarnhad ein bod wedi derbyn eich Ffurflen Gwynion ac wedi rhoi cyfeirnod achos i'ch cwyn o fewn 10 diwrnod, cysylltwch â ni yn enquiries@oiahe.org.uk.

Adran 1: Eich manylion

Yn yr adran hon, gofynnwn am eich gwybodaeth i'n helpu i gyfathrebu â chi ynglŷn â'ch cwyn.

Teitl (e.e. Ms, Mr, Dr, e.y.b)	
Enw(au) cyntaf	
Cyfenw/enw teulu	
Enw(au) a ffafrir	

◆ Os yw'n well gennych gael eich adnabod wrth enw gwahanol, nodwch ef yma.

Eich cyfeiriad

Llinell 1 eich cyfeiriad			
Llinell 2 eich cyfeiriad			
Tref			
Sir		Gwlad	
Côd post			

Rhif ffôn	
------------------	--

◆ Os ydych chi'n darparu rhif rhyngwladol, ychwanegwch gôd y wlad ar y ffurf ganlynol: +44

Cyfeiriad e-bost	
-------------------------	--

◆ Rhowch gyfeiriad e-bost i ni os gallwch, gan y bydd angen i ni ysgrifennu atoch, ac rydym fel arfer yn defnyddio e-bost.

Sylwch: Bydd angen i chi ddweud wrthym am unrhyw newidiadau yn eich manylion cysylltu tra bydd eich cwyn gyda ni. Yn ystod yr amser hwn, dywedwch wrthym ymlaen llaw os ydych yn mynd i fod i ffwrdd. Os na fyddwch ar gael am gyfnod hir, efallai y byddwch am ystyried penodi cynrychiolydd i ddelio â'ch cwyn.

Os ydych o dan 18 oed pan fyddwch yn cyflwyno'r Ffurflen Gwynion hon, nodwch eich dyddiad geni:

--

Adran 1: Eich manylion (parhad)

Fel arfer byddwn yn defnyddio e-bost pan fydd angen i ni gyfathrebu'n ysgrifenedig. Os na allwch gael mynediad at e-bost a bod angen i ni gysylltu â chi drwy'r post, ticiwch y blwch hwn a gwnewch yn siŵr eich bod wedi nodi'ch cyfeiriad uchod:

◆ Ticiwch y blwch os na allwch ddefnyddio/cyrchu e-bost a bod angen i ni gysylltu â chi drwy'r post. Drwy adael y blwch heb ei dicio rydych yn cytuno i dderbyn cyfathrebiadau e-bost gennym ni. Gwiriwch eich ffolderi sbam/sothach yn rheolaidd drwy gydol y broses gwyno, a dylech ganiatáu hyd at 24 awr ar gyfer derbyn e-byst.

Rydym am i'n gwasanaeth fod yn hygyrch i bawb sydd angen ei ddefnyddio. Os oes gennych chi anabledd sy'n golygu bod yna addasiadau yr hoffech i ni ystyried eu gwneud i'n proses neu i'r ffordd rydym yn cyfathrebu â chi, dywedwch wrthym am y rhain yma. Os byddai'n well gennych chi gadw'r wybodaeth hon ar wahân i'ch Ffurflen Gwynion, cysylltwch â ni drwy e-bostio accessibility@oiahe.org.uk neu gallwch ffonio 0118 959 9813.

◆ Mae'n bosibl y byddwn yn cysylltu â chi i drafod addasiadau posibl mewn mwy o fanylder.

Adran 2: Manylion y Cynrychiolydd (dewisol)

Fel arfer mae'n well i fyfyrwyr ymdrin â'u cwynion eu hunain. Fodd bynnag, efallai y bydd yn ddefnyddiol i chi fod â chynrychiolydd (er enghraifft cynrychiolydd undeb myfyrwyr) os ydych yn ei chael hi'n anodd delio â llawer o wybodaeth, neu os gallai fod yn anodd i chi ddelio â'ch cwyn am resymau eraill.

Os byddwch yn penodi cynrychiolydd, mae angen i chi wneud yn siŵr eu bod yn gwybod popeth am eich cwyn, eu bod yn fodlon eich cynrychioli, eu bod ar gael a bod ganddynt yr amser i'ch cynrychioli; hefyd y byddant yn eich darparu â'r holl wybodaeth ddiweddaraf. Unwaith y byddwch wedi penodi cynrychiolydd, byddwn fel arfer yn cyfathrebu â nhw'n unig. Ni fyddwn yn cysylltu â chi yn uniongyrchol nes i ni orffen ymdrin â'ch cwyn.

Mae ein gweithdrefnau yn anffurfiol ac ni ddylai fod angen cynrychiolydd cyfreithiol arnoch. Am y rheswm hwn, os byddwch yn dewis bod â chynrychiolydd cyfreithiol, ni fyddwn fel arfer yn argymhell bod eich darparydd yn cyfrannu at eich costau cyfreithiol, hyd yn oed os byddwn yn cadarnhau eich cwyn.

Os ydych chi am benodi cynrychiolydd, rhowch eu manylion i ni yma.

Teitl (e.e. Ms, Mr, Dr, e.y.b)	
Enw(au) cyntaf	
Cyfenw/enw teulu	
Enw(au) a ffafir	

◆ Os yw'n well gan eich cynrychiolydd gael ei adnabod wrth enw gwahanol, nodwch ef yma.

Cyfeiriad

Llinell 1 eu cyfeiriad			
Llinell 2 eich cyfeiriad			
Tref			
Sir		Gwlad	
Côd post			

Rhif ffôn	
------------------	--

◆ Os ydych chi'n darparu rhif rhyngwladol, ychwanegwch gôd y wlad ar y ffurf ganlynol: +44

Cyfeiriad e-bost	
-------------------------	--

◆ Bydd angen o leiaf un ffordd o gysylltu â'ch cynrychiolydd yn ysgrifenedig (gweler isod hefyd).

Adran 2: Manylion y Cynrychiolydd (dewisol) (parhad)

Rwy'n cadarnhau bod fy nghynrychiolydd wedi cytuno i'm cynrychioli wrth ddod â'm cwyn i SDA. Mae fy nghynrychiolydd yn deall y bydd SDA yn cyfathrebu'n uniongyrchol â nhw'n unig.

Rydym fel arfer yn cyfathrebu drwy e-bost. Os na all eich cynrychiolydd gael mynediad at e-bost a bod angen i ni gysylltu â nhw drwy'r post, ticiwch y blwch hwn:

◆ Ticiwch y blwch os na all eich cynrychiolydd ddefnyddio/cyrchu e-bost a bod angen i ni gysylltu â nhw drwy'r post. Os byddwch yn gadael y blwch heb ei dicio, byddwn yn cyfathrebu â'ch cynrychiolydd drwy e-bost. Gofynnwn i gynrychiolwyr wirio eu ffolderi sbam/sothach yn rheolaidd drwy gydol y broses gwyno, a dylent ganiatáu hyd at 24 awr ar gyfer derbyn e-byst.

◆ **Nodwch os gwelwch yn dda:** Bydd angen i'ch cynrychiolydd ddweud wrthym am unrhyw newidiadau yn eu manylion cysylltu tra bydd eich cwyn gyda ni.

Adran 3: Gwybodaeth am y darparwydd a'r cwrs

Yn yr adran hon gofynnwn am rywfaint o wybodaeth am eich darparwydd, oherwydd ni allwn ond edrych ar gwynion am ddarparwyr sy'n aelodau o'n Cynllun. Rydym hefyd yn gofyn am rywfaint o wybodaeth am eich cwrs a sut y cofrestrwyd chi.

Cyn y gallwch chi ddod â'ch cwyn atom, fel arfer mae angen i chi gwblhau'r gweithdrefnau mewnol perthnasol yn eich darparwydd. Os nad ydych wedi gwneud hyn, ni fyddwn yn gallu derbyn eich cwyn oni bai bod rhesymau eithriadol pam na allech chi gwblhau'r gweithdrefnau mewnol. Mae angen i chi [gysylltu â ni](#) cyn i chi gyflwyno eich cwyn os nad oes gennych chi Lythyr Cwblhau Gweithdrefnau, ond eich bod yn meddwl bod rhesymau eithriadol dros i ni ystyried eich cwyn.

Os ydych chi'n astudio gydag un darparwydd ar gyfer cymhwyster a ddyfernir gan ddarparwydd arall, mae'n bosibl y byddwch yn gallu cwyno i un darparwydd neu'r ddau ohonynt, yn dibynnu ar weithdrefnau perthnasol a pha ddarparwydd sy'n gyfrifol am y materion yr ydych yn cwyno amdanynt. Os yw'r darparwydd yr ydych yn cwyno amdano'n aelod o'n Cynllun, dylai eich cyflwyno â Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau ar ddiwedd y gweithdrefnau hynny, a byddwch wedyn yn gallu dod atom ni.

Os ydych chi neu os oeddech wedi cofrestru i astudio mewn rhai darparwyr, er enghraifft prifysgolion, gallwch gwyno i ni, waeth pa gwrs yr ydych neu yr oeddech yn ei astudio. Gyda rhai darparwyr eraill, er enghraifft llawer o golegau addysg bellach a chweched dosbarth neu ddarparwyr Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon (SCITTs), dim ond os ydych chi neu os oeddech ar [gwrs addysg uwch](#) y gallwch chi ddod â chwyn atom ni.

Enw'r darparwydd ble rydych/roeddech chi'n astudio:

◆ Nodwch y darparwydd ble rydych/roeddech chi'n astudio ac yr ydych yn cwyno amdano. (Dyma'r darparwydd a anfonodd y Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau atoch). Dim ond am y darparwyr hynny sy'n [aelodau o'n Cynllun](#) y gallwch chi ddod â chwyn atom ni yn eu cylch.

Ydych chi'n astudio gyda'r darparwydd sy'n dyfarnu eich cymhwyster?

◆ Efallai eich bod yn astudio mewn un darparwydd ar gyfer cymhwyster a ddyfernir gan ddarparwydd arall. Er enghraifft, efallai y byddwch chi'n astudio mewn coleg am radd a ddyfernir gan Brifysgol. Os oes mwy nag un darparwydd yn ymwneud â'ch cwyn, byddwn yn edrych ar yr hyn y mae pob darparwydd sy'n aelod yn gyfrifol amdano.

Ydw, y darparwydd lle rwyf/roeddwn yn astudio sy'n dyfarnu fy nghymhwyster

Nac ydw, nid y darparwydd lle rwyf/roeddwn yn astudio sy'n dyfarnu fy nghymhwyster

Nac ydw, nid y darparwydd lle rwyf/roeddwn yn astudio sy'n dyfarnu fy nghymhwyster
Dyfernir fy nghymhwyster gan Sefydliad Dyfarnu a reoleiddir gan Ofqual

Dydw i ddim yn siŵr

Os ateboch chi 'Nac ydw', nodwch enw'r darparwydd/Sefydliad Dyfarnu sy'n dyfarnu eich cymhwyster.

Adran 3: Gwybodaeth am y darparwydd a'r cwrs (parhad)

Ble ydych chi'n astudio?

Rwyf yng Nghymru neu Loegr ac mae fy nghwrs yn golygu dysgu wyneb-yn-wyneb

Rwy'n astudio drwy ddysgu o bell gyda darparwydd yng Nghymru neu Loegr

Rwy'n astudio gyda darparwydd nad yw yng Nghymru na Lloegr ar gyfer cymhwyster gyda darparwydd yng Nghymru neu Loegr ac mae fy nghwrs yn golygu dysgu wyneb-yn-wyneb

Rwy'n astudio drwy ddysgu o bell gyda darparwydd nad yw yng Nghymru na Lloegr ar gyfer cymhwyster a ddyfernir gan ddarparwydd yng Nghymru neu Loegr

Pa ddarparwydd/darparwyr ydych chi'n cwyno yn eu cylch?

◆ Dim ond am y darparwyr hynny sy'n aelodau o'n Cynllun y gallwch chi ddod â chwyn atom ni yn eu cylch. Cyn y byddwch chi'n dod â'ch cynw yn atom, fel arfer mae angen i chi gwblhau'r gweithdrefnau mewnol perthnasol yn eich darparwydd. Os ydych chi'n astudio gydag un darparwydd ar gyfer cymhwyster a ddyfernir gan ddarparwydd arall, mae'n bosibl y byddwch yn gallu cwyno i un darparwydd neu'r ddau ohonynt, yn dibynnu ar weithdrefnau perthnasol a pha ddarparwydd sy'n gyfrifol am y materion yr ydych yn cwyno amdanynt. Os yw'r darparwydd yr ydych yn cwyno amdano yn aelod o'n Cynllun, dylai eich cyflwyno â Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau ar ddiwedd y gweithdrefnau hynny, a byddwch wedyn yn gallu dod atom ni.

Y darparwydd a enwir uchod ble rydych/roeddech chi'n astudio

Y darparwydd a enwir uchod sy'n dyfarnu eich cymhwyster

Math o gwrs:

Os ateboch chi "arall" rhowch fanylion os gwelwch yn dda

Categori'r cwrs:

Enw'r cwrs:

◆ Nodwch enw'r cwrs rydych chi'n ei astudio, e.e. Hanes. Os ydych chi'n astudio ar gyfer PhD, nodwch faes y pwnc nid teitl eich traethawd ymchwil.

A yw yn brentisiaeth?

Adran 3: Gwybodaeth am y darparwydd a'r cwrs (parhad)

Ydych chi wedi cofrestru

Llaw-amser (yn mynychu pob modiwl a bennwyd ar gyfer astudio am flwyddyn)

Rhan-amser (yn mynychu nifer y modiwlau a bennwyd ar gyfer astudiaeth blwyddyn dros fwy nag un flwyddyn)

Arall

Pan wnaethoch chi wneud cais ar gyfer eich cwrs, oeddech chi'n

◆ Mae angen y wybodaeth hon arnom i gydymffurfio â gofynion adrodd fel y corff dynodedig Amgen ar gyfer Datrys Anghydfodau mewn addysg uwch. Ni fydd yr wybodaeth hon yn effeithio ar ein hadolygiad o'ch cwyn.

Preswyllo yn y DU

Preswyllo'r tu allan i'r DU

Ansicr

Os ydych chi'n ansicr, eglurwch eich amgylchiadau os gwelwch yn dda

A yw eich cwrs yn amodol ar gyfnod cofrestru penodol corff proffesiynol neu achredu?

◆ Efallai y bydd yn rhaid cwblhau rhai cyrsiau proffesiynol o fewn cyfnod penodol o amser. Gall y terfyn amser gael ei osod gan y corff proffesiynol neu achredu perthnasol ac nid y darparwydd.

Ydy

Nac ydy

Dywedwch wrthym beth yw dyddiad diwedd y cyfnod hwn ar gyfer eich astudiaethau:

Nodwch y dyddiad y dechreuoch chi eich cwrs:

◆ Y dyddiad hwn fydd diwrnod cyntaf tymor cyntaf eich blwyddyn gyntaf. Os nad ydych yn cofio'r union ddyddiad, dewiswch ddiwrnod cyntaf y mis a'r flwyddyn. Mae'n bosib y bydd yr union ddyddiad yn bwysicach os ydych chi'n astudio cwrs byr neu os yw eich dyddiad cychwyn yn berthnasol i'ch cwyn. Peidiwch ag oedi cyn cyflwyno'ch ffurflen tra byddwch yn ceisio cael gafael ar y wybodaeth hon.

Nodwch y dyddiad y gorffennoch chi eich cwrs:

◆ Y dyddiad hwn fydd diwrnod olaf tymor olaf eich blwyddyn olaf. Os ydych chi'n dal i fod yn fyfyrwr, nodwch y dyddiad rydych chi'n disgwyl gorffen. Os bu i chi dynnu allan, neu y tynnwyd chi allan o'ch cwrs, nodwch y dyddiad os gwelwch yn dda. Os nad ydych yn cofio'r union ddyddiad, dewiswch ddiwrnod cyntaf y mis a'r flwyddyn. Mae'n bosib y bydd yr union ddyddiad yn berthnasol os ydych chi'n astudio cwrs byr neu os yw eich cwyn yn ymwneud â phryd y gorffennoch chi. Peidiwch ag oedi cyn cyflwyno'ch ffurflen tra byddwch yn ceisio cael gafael ar y wybodaeth hon.

Adran 3: Gwybodaeth am y darparwydd a'r cwrs (parhad)

Faint yw'r ffioedd dysgu rydych chi'n eu talu bob blwyddyn ar gyfer y cwrs hwn?

◆ Nodwch y swm mewn punnoedd. Os newidiodd eich ffioedd bob blwyddyn yn y darparwydd, yna nodwch y swm ar gyfer pob blwyddyn yn y gofod a ddarperir.

Sut mae eich darparwydd yn eich categoreiddio at ddibenion ffioedd?

Myfyriwr cartref - Rydych chi'n talu ffioedd dysgu ar y lefel a osodwyd gan y darparwydd ar gyfer dinasyddion Prydeinig

Myfyriwr o'r UE - Rydych chi'n talu'r ffioedd dysgu ar y lefel a osodwyd gan y darparwydd ar gyfer dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd

Myfyriwr o du allan yr UE - Rydych chi'n talu ffioedd dysgu ar y lefel a osodir gan y darparwydd ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol o du allan yr Undeb Ewropeaidd

Adran 4: Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau

Ni fyddwn yn adolygu cwyn oni bai bod y darparwydd wedi cael y cyfle i'w hystyried yn gyntaf. Mae hyn yn golygu fel arfer bod angen i chi fod wedi cwblhau prosesau mewnol eich darparwydd cyn dod â'ch cwyn atom ni. Pan fydd eich darparwydd wedi gwneud penderfyniad ar eich cwyn, dylai eich cyflwyno â Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau. Rhaid i'ch Ffurflen Gwynion, wedi'i chwblhau, ein cyrraedd o fewn 12 mis o ddyddiad y llythyr hwnnw. Ni fyddwn yn derbyn cwyn sy'n ein cyrraedd fwy na 12 mis ar ôl dyddiad y Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau.

Ydych chi wedi derbyn Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau gan y darparwydd neu ddarparwyr yr ydych yn cwyno amdanynt?

◆ Nodwch y darparwydd ble rydych/roeddech chi'n astudio ac yr ydych yn cwyno amdano. (Dyma fydd y darparwydd a anfonodd y Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau atoch). Dim ond am y darparwyr hynny sy'n [aelodau o'n Cynllun](#) y gallwch chi ddod â chwyn atom ni yn eu cylch.

Do

Naddo

Os ydych chi wedi, rhowch ddyddiad y Llythyr(au) Cwblhau Gweithdrefnau

Os nad ydych chi wedi, eglurwch pam nad ydych yn darparu Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau

Adran 5: Eich cwyn

Crynodeb o'ch cwyn:

◆ Dywedwch yn gryno wrthym am y prif faterion a godwyd gennych yn eich cwyn neu'ch apêl i'r darparydd. Gallwch ein helpu i ddeall eich cwyn drwy gynnwys rhestr o'r digwyddiadau allweddol gyda dyddiadau, yn nhrefn y dyddiadau hynny (efallai y byddai'n syniad da i chi ddefnyddio pwyntiau bwled neu restr wedi'i rhifo). Fel arfer bydd ffocws ein hadolygiad ar sut y deliodd y darparydd â'ch cwyn neu apêl a'i benderfyniad terfynol, cyn iddo anfon y Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau atoch.

Pam ydych chi'n anfodlon â'r penderfyniad terfynol a ddisgrifir yn y Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau neu'r broses a ddilynwyd?

◆ Pa elfennau o'r penderfyniad terfynol fel y nodir yn y Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau, neu'r broses a ddilynwyd gan y darparydd, yr ydych yn anfodlon â nhw? Nodwch y prif resymau pam nad ydych yn fodlon â phenderfyniad neu broses y darparydd.

Adran 5: Eich cwyn (parhad)

Datrysiaid posibl:

◆ Os byddwn yn cadarnhau eich cwyn, sut y gellir datrys y mater? Gweler y tudalennau [gwneud pethau'n iawn](#) ar ein gwefan i gael gwybodaeth am y mathau o ddatrysiaidau y gallwn eu hargymell os byddwn yn cadarnhau eich cwyn. Ni fydd unrhyw awgrymiadau a wnewch o ran sut y gellid datrys y mater yn effeithio ar ein penderfyniad ynghylch a ddylid cadarnhau eich cwyn. Mae'n bosibl y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth y byddwch yn ei darparu yma i geisio setlo'ch cwyn.

A fu unrhyw achos Llys neu Dribiwnlys yn ymwneud â'ch cwyn (neu a oes unrhyw achos o'r fath ar y gweill)?

◆ Dywedwch wrthym a ydych wedi dechrau unrhyw achos llys neu dribiwnlys sy'n berthnasol i'ch cwyn. Darparwch gopiau o'r ffurflen hawlio, amddiffyniad ac unrhyw orchmynion perthnasol sy'n ymwneud â'r achos llys neu dribiwnlys. Mae'n rhaid i chi ddweud wrthym os byddwch yn penderfynu cychwyn unrhyw achos ar ôl i'n hadolygiad ddechrau, oherwydd gallai hyn effeithio ar p'un a allwn barhau i adolygu eich cwyn.

Oes

Nac oes

A yw eich cwyn wedi cael ei ystyried gan sefydliad arall?

◆ Dywedwch wrthym os yw eich cwyn wedi cael ei hystyried gan unrhyw sefydliad y tu allan i'r darparydd yr ydych yn cwyno amdano. Mae'n bosibl na fyddwn yn gallu adolygu eich cwyn os yw eisoes wedi cael ei ystyried gan gorff datrys anghydfod amgen.

Ydy

Nac ydy

Adran 6: Datganiad

Darllenwch y datganiad isod yn ofalus a thiciwch y blychau perthnasol. Rydym yn argymhell eich bod hefyd yn darllen ein [Rheolau](#) a'n canllawiau ynghylch [gwybodaeth bersonol](#) cyn cwblhau'r adran hon. Mae angen i chi gwblhau'r rhan hon o'r ffurflen, hyd yn oed os ydych chi wedi penodi cynrychiolydd.

RWYF AM I SWYDDFA'R DYFARNWR ANNIBYNNOL AR GYFER ADDYSG UWCH YSTYRIED FY NGHWYN.

- ▶ Credaf fod y pethau rwyf wedi'u dweud i ategu fy nghwyn yn wir.
- ▶ Byddaf yn rhoi gwybod i SDA ar unwaith os bydd unrhyw ran o'm cwyn yn cael sylw yn y llysoedd neu gan sefydliad arall.
- ▶ Gallaf dynnu fy nghwyn yn ôl ar unrhyw adeg a bydd SDA yn rhoi'r gorau i'w hystyried.
- ▶ Mae SDA yn ddiuedd ac ni fydd yn gweithredu ar fy rhan i nac ar ran y darparydd.
- ▶ Corff adolygu yw SDA sy'n darparu gwasanaeth datrys anghydfod amgen anffurfiol.
- ▶ Mae'n bosib y bydd SDA yn dod o hyd i ddatrysiad gwahanol i'm cwyn o gymharu â'r hyn y byddai llys yn ei ganfod. Ar ddiwedd prosesau SDA, nid oes unrhyw orfodaeth gyfreithiol arnaf, nac ar y darparydd, i dderbyn eu penderfyniad. Mae'n bosib y byddaf yn gallu mynd â'm cwyn i lys ar ôl i SDA gwblhau eu prosesau, ond os ydw i'n derbyn y datrysiad y mae SDA yn ei argymhell, gall hyn gyfyngu ar fy ngallu i geisio sicrhau canlyniad gwahanol drwy lys.
- ▶ Gallaf ofyn cwestiynau am Reolau SDA a dweud os wyf yn anfodlon â'r ffordd y cânt eu defnyddio, ond SDA sydd â'r gair olaf o ran sut y caiff y Rheolau hyn eu gweithredu.

Trwy osod tic yn y blwch hwn, rwyf yn cadarnhau fy mod i wedi deall ac yn cytuno â'r datganiadau hyn.

- ▶ Bydd SDA yn ymdrin â manylion personol amdanaf, a allai gynnwys gwybodaeth sensitif (er enghraifft, yn ymwneud â materion iechyd) fel y gall SDA adolygu fy nghwyn yn effeithiol.
- ▶ Gall SDA gael gafael ar y wybodaeth hon gennyf i, a chan y darparydd yr oeddwn yn astudio ynddo, ac (os yw'n wahanol) gan y darparydd sy'n dyfarnu'r cymhwyster yr oeddwn yn astudio ar ei gyfer. O bryd i'w gilydd gall SDA hefyd gael gafael ar wybodaeth sy'n berthnasol i'ch cwyn gan sefydliadau eraill.
- ▶ Mae Cynllun SDA yn dryloyw. Pan fyddaf yn cyflwyno'r Ffurflen Gwynion hon, bydd SDA yn ei rhannu, ynghyd ag unrhyw wybodaeth ategol, gyda'r darparydd yr wyf yn cwyno amdano. Mewn achos ble rwyf/roeddwn yn astudio gydag un darparydd ar gyfer cymhwyster a ddyfernir gan ddarparydd arall, gall SDA rannu'r ffurflen hon, ynghyd â'r wybodaeth a'r dystiolaeth a roddaf, gydag un darparydd neu'r ddau ohonynt, fel y gwêl SDA yn briodol.
- ▶ Mae'n bosibl y bydd SDA yn rhannu unrhyw wybodaeth bellach a roddaf ynghylch fy nghwyn gyda'r darparydd/darparwyr) dan sylw. Os yw fy nghwrs astudiaeth neu'r gŵyn yn ymwneud â mwy nag un darparydd, gall SDA gyfnewid gwybodaeth a gyflenwir gan un darparydd ynghylch fy nghwyn, â'r llall/lleill. Os bydd gennyf unrhyw bryderon am hyn, byddaf yn cysylltu â SDA am gyngor cyn i mi ddarparu'r wybodaeth.

Adran 6: Datganiad (parhad)

- ▶ Dim ond i fyfyrwyr sy'n astudio ar gyfer cymwysterau a ddyfernir gan Sefydliadau Dyfarnu nad ydynt yn aelodau o Gynllun SDA, er enghraifft City & Guilds y mae'r paragraff hwn yn gymwys, Os yw'r cymhwyster yr wyf/yr oeddwn yn astudio ar ei gyfer yn cael ei ddyfarnu gan Sefydliad Dyfarnu nad yw'n aelod o Gynllun SDA, efallai y bydd angen i'r SDA gyfnewid gwybodaeth â'r Sefydliad Dyfarnu hwnnw a/neu ei reoleiddiwr. Os felly, gall SDA anfon copi o'r Ffurflen Gwynion hon, ynghyd â dogfennaeth ategol, at y Sefydliad Dyfarnu perthnasol a/neu ei reoleiddiwr a byddwn yn rhoi gwybod i chi am hyn.
- ▶ Gallaf dynnu fy nghaniatâd yn ôl i SDA ymdrin â'm data personol ar unrhyw adeg. Fodd bynnag, gallai hyn olygu na all SDA ystyried fy nghwyn.

Drwy osod tic yn y blwch hwn, rwy'n cadarnhau fy mod wedi deall y datganiadau uchod ac rwy'n cytuno iddynt.

Ni all SDA ystyried fy nghwyn heb fy mod i'n cytuno i hynny

- ▶ O bryd i'w gilydd, mae SDA yn gofyn am adborth gan y bobl sy'n defnyddio eu gwasanaethau. Gall SDA ddefnyddio fy manylion cysylltu i ofyn am fy marn. Mae fy nghyfranogiad yn yr arolygon hyn yn wirfoddol ac os dewisaf beidio â chymryd rhan, ni fydd hyn yn effeithio ar sut y mae fy nghwyn yn cael ei ystyried.
- ▶ Weithiau, bydd SDA yn gweithio gyda thrydydd parti annibynnol sy'n cynnal ymchwil i gwynion myfyrwyr â boddhad â gwasanaeth SDA. Yn yr achosion hyn, ni fydd y trydydd parti yn defnyddio'r data personol at unrhyw ddiben heblaw ceisio adborth. Bydd yn cymryd mesurau priodol i gadw'r data'n ddiogel a bydd yn cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol gan gynnwys o ran fy hawl i weld a dileu fy ngwybodaeth personol. Mae cymryd rhan yn y math hwn o arolwg yn wirfoddol, ac nid yw'n effeithio ar sut y mae fy nghwyn yn cael ei ystyried. Ni fydd SDA yn fy nghynnwys yn y math hwn o ymchwil heb fy mod i'n cytuno i hynny.

Cytunaf y gall trydydd parti ofyn am adborth gennyf ar ran SDA.

Rwy'n cadarnhau mai fi yw'r myfyriwr sy'n gwneud y gwyn.

LLOFNOD (Teipiwch eich enw yma)
(Hyd yn oed os ydych chi wedi penodi cynrychiolydd)

DYDDIAD

Adran 7: Dogfennau ategol

Mae angen i chi ddarparu eich **Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau** os gwelwch yn dda. Fel arfer mae angen hwn arnom cyn y gallwn ddechrau ystyried eich cwyn, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn ei gynnwys er mwyn osgoi oedi wrth ymdrin â'ch cwyn. Os anfonodd y darparydd llythyr neu adroddiad ategol atoch gyda'r Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau atodwch hwnnw hefyd.

Nid oes angen i chi ddarparu unrhyw ddogfennau eraill sy'n ymwneud â'ch cwyn. Yn ystod ein hadolygiad byddwn yn gofyn i'r darparydd am gopi o'r wybodaeth sy'n berthnasol i'ch cwyn. Bydd hyn fel arfer yn cynnwys copïau o'r holl ddogfennau a ystyriwyd gan y darparydd ac unrhyw gofnod o sut y bu i'r darparydd ystyried eich achos cyn dod i'r penderfyniad terfynol sydd wedi'i amlinellu yn y Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau. Bydd y wybodaeth hon fel arfer yn cynnwys, er enghraifft, y gŵyn neu'r apêl a wnaethoch i'r darparydd yn ogystal ag unrhyw ohebiaeth a chofnodion perthnasol ynghylch sut y bu i'r darparydd ystyried eich achos, megis nodiadau neu gofnodion o unrhyw wrandawiadau neu gyfarfodydd a gynhaliwyd.

Byddwn yn rhannu manylion ein cais am wybodaeth gyda chi, fel y gallwch chi weld yr hyn yr ydym wedi gofyn amdano. Pan fydd y darparydd wedi rhoi'r wybodaeth berthnasol i ni, byddwn yn ei rhannu gyda chi ac yn rhoi cyfle i chi wneud sylwadau ar y wybodaeth honno. Os credwch fod unrhyw wybodaeth ar goll neu os oes rhywbeth arall yr hoffech i ni ei weld, gallwch ei roi i ni bryd hynny.

- ▶ Rhannwch ddogfennau gyda ni yn electronig lle bynnag y bo modd
- ▶ **Peidiwch ag anfon dogfennau papur gwreiddiol atom**

Adran 8: Holiadur monitro

Rydym am i bob myfyriwr sydd â chwyn heb ei datrys am eu darparwydd addysg uwch deimlo y gallant ddod â'u cwyn atom, waeth beth fo'u hoedran, hil, anabledd, tarddiad ethnig, hunaniaeth ryweddol, statws priodasol neu bartneriaeth, cenedligrwydd, crefydd neu gred, rhywedd neu rywioldeb. Er mwyn ein helpu i fonitro hyn, gofynnwn i chi ddweud wrthym amdanoch chi'ch hun.

Does dim rhaid i chi gwblhau'r ffurflen hon. Byddwn yn dal i ystyried eich cwyn os byddwch yn dewis peidio â rhannu'r wybodaeth hon gyda ni. Ond, trwy lenwi'r ffurflen hon, byddwch yn ein helpu i gael gwell dealltwriaeth o bwy sy'n defnyddio ein Cynllun.

Os byddwch yn dweud wrthym amdanoch eich hun ar y ffurflen hon, ni fyddwn yn rhannu'r wybodaeth ag unrhyw un arall. Ni chaiff y wybodaeth a roddwch i ni ar y ffurflen hon ei rhannu â'r rheiny sy'n ymdrin yn uniongyrchol â'ch cwyn. Byddwn ond yn defnyddio'r wybodaeth a roddwch i ni at ddibenion cynnal dadansoddiad ystadegol o bwy sy'n defnyddio ein Cynllun. Gwneir y dadansoddiad hwn yn ddiennw, ac ni fydd modd eich adnabod mewn unrhyw wybodaeth a gyhoeddwn ynglŷn â phwy sy'n defnyddio ein gwasanaeth.

Sut ydych chi'n disgrifio eich ethnigrwydd:

Ethnigrwydd lluosog /
cymysg

Ethnigrwydd sengl

Rwy'n methu â dweud

Byddai'n well gen i beidio
â dweud

Arall

Dewiswch unrhyw opsiynau sy'n briodol yn eich barn chi

(ar gyfer ethnigrwydd lluosog/cymysg, ticiwch bob un sy'n berthnasol):

Arabaid / Arabaid Brydeinig

Arabaid

Asiaidd / Asiaidd Brydeinig

Bangladeshaid

Tsieinaidd

Indiaidd

Pacistanaid

Cefndir Asiaidd / Asiaidd Brydeinig arall

Croenddu / Croenddu Brydeinig

Affricanaidd

Caribiaidd

Cefndir Croenddu / Croenddu Brydeinig arall

Croenwyn / Croenwyn Brydeinig

Croenwyn Brydeinig / Seisnig / Gogledd Wyddelig /

Albanaidd / Cymreig

Sipsiwn / Teithiwr Gwyddelig / Teithiwr / Roma

Cefndir Prydeinig Croenwyn / Croenwyn arall

Arall

Cefndir arall

Os hoffech ddweud rhywbeth wrthym am eich ethnigrwydd nad yw'r ffurflen hon wedi'i chynnwys, dywedwch wrthym yma:

Adran 8: Holiadur monitro (parhad)

Ydych chi'n hunaniaethu fel?

Benyw

Gwryw

Anneuaidd

Byddai'n well gen i beidio
â dweud

Arall

Faint ydy eich oed?

Ydych chi'n cael eich ystyried yn berson anabl o fewn ystyr y Ddeddf Cydraddoldeb neu a oes gennych chi gyflwr iechyd hir-dymor neu wahaniaeth dysgu sy'n cael effaith sylweddol a hir-dymor ar eich gallu i gyflawni gweithgareddau o ddydd i ddydd?

Ydw / Oes

Nac ydw / Nac oes

Byddai'n well gen i beidio â
dweud

Yn ddall neu â nam ar y golwg na ellir ei gywiro â sbectol

Byddar neu â nam ar y clyw

Gwahaniaeth dysgu fel dyslecsia, dyspracsia neu AD(H)D.

Salwch hir-dymor neu gyflwr iechyd fel canser, HIV, clefyd siwgr, clefyd y galon neu epilepsi

Cyflwr neu anhwylder iechyd meddwl

gorbryder

iselder

cyflwr iechyd meddwl arall

Nam corfforol, symudedd neu fedruswydd

Cyflyrau cymdeithasol / cyfathrebu fel nam ar leferydd ac iaith neu gyflwr sbectrw m awtistig

Nam, cyflwr iechyd neu wahaniaeth dysgu nad yw wedi'i restru uchod (nodwch, os dymunwch)

Arall

Rydym am i'n gwasanaeth fod yn hygyrch i bawb sydd angen ei ddefnyddio. Os oes gennych chi anabledd sy'n golygu bod yna addasiadau yr hoffech i ni ystyried eu gwneud i'n proses neu i'r ffordd rydym yn cyfathrebu â chi, dywedwch wrthym am y rhain ar eich Ffurflen Gwynion neu cysylltwch â ni drwy e-bostio accessibility@oiahe.org.uk neu ffonio 0118 959 9813.